

COFNODION CYFARFOD BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU
15 Mawrth 2017**Eitem 1: Croeso – Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a llongyfarchwyd DL ar gael ei benodi'n Athro Prifysgol.
2. Darllenwyd Rhestr Camau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol a chafwyd clywed hanes hynt pob Cam Gweithredu.

Eitem 2: Cofnodion Cyfarfod 15 Rhagfyr 2016

3. Nodwyd y cofnodwyd a'u derbyn fel cofnod cywir. Atgoffodd AR yr aelodau eraill i feddwl am unrhyw fylchau ymchwil ac i gynnig syniadau i swyddogion perthnasol LIC.

Eitem 3: Dangosfwrdd Cyflenwi

4. Dosbarthodd DM y Dangosfwrdd Cyflawni ymhlith yr aelod a dweud am y camau breision sy'n cael eu cymryd at daro'r targedau a beth yw'r camau nesaf, yn enwedig o safbwynt y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Cytunwyd y gallai fersiwn 'ciplun' gael ei gynhyrchu, a bod y prif bwyntiau'n cael eu nodi yng nghylchlythyr Bwyd a Diod Cymru.

Eitem 4: Diwrnod Strategaeth y Bwrdd

5. Aeth SP trwy'r Agenda. Cytunwyd bod angen cynnwys y cysyniad 'Cynaliadwyedd' yn yr Agenda ac y dylid gwahodd Croeso Cymru i esbonio sut y gallai'r brandio ymgorffori gwerthoedd y fenter.
6. Cytunwyd ar bynciau'r dydd, fel a ganlyn:
 - Ble ydyn ni / Cyflwyniad ar yr adolygiad o'r Cynllun Gweithredu
 - Newid posib i'r amcanion h.y. oherwydd Brexit
 - Cyfeiriad / Golwg ar y Dyfodol
 - Cysylltiadau sydd angen eu creu a'u meithrin
 - Brandio / Cyfathrebu ac Ymgysylltu
 - Sesiynau ffrydiau gwaith, gan gynnwys sut mae'r ffrydiau gwaith yn cyfateb i'r Cynllun Gweithredu
7. Cytunwyd i ddosbarthu'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu ymhlith aelodau'r Bwrdd cyn diwrnod y Strategaeth er mwyn i bobl gael cyfle i'w ystyried.

Eitem 5: Great Taste 2017

8. Cawsom drosolwg gan EJ am Great Taste 2017. Caiff yr ymgeiswyr o Gymru eu beirniadu yn y Gogledd o 24 – 26 Mai.
9. Bwriedir cynnal sesiynau “speed dating” â myfyrwyr coleg. Cytunwyd y byddai hyn yn gyfle rhagorol i drafod y cyfleoedd i fyfyrwyr sydd â sgiliau yn y diwydiant. Cytunodd ALW a JW i gynrychioli'r bwrdd.
10. Cynhelir cinio rhwydweithio ar 25 Mai. Gofynnwyd i aelodau'r bwrdd gadarnhau a fydden nhw'n gallu mynd ac i roi gwybod i'r swyddogion.

Eitem 6: Y Diweddaraf am Brexit – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru

11. Dosbarthwyd y Papur Gwyn ymhlith aelodau'r Bwrdd a rhoddodd DT ddisgrifiad cryno o'r prif amcanion a sut y dylid ymdrin â nhw:
 - Y farchnad sengl a Masnach Ryngwladol
 - Ymfudo
 - Cyllid a Buddsoddi
 - Materion Cyfansoddiadol a Datganoli
 - Gwerthoedd a Gwarchod Cymdeithas a'r Amgylchedd
 - Trefniadau Pontio
12. Amcan cyffredinol y papur yw cynnig syniadau ymarferol ar gyfer pennu cyfeiriad y dyfodol / dechrau'r trafodaethau.

Eitem 7: Y Diweddaraf am Frandio / Blwyddyn y Chwedlau

13. Cawsom gyflwyniad ar frandio gan CC. Mae sectorau newydd yn dechrau mabwysiadu'r brand, gan gryfhau gwaith strategol LIC.
14. Mae'r cysyniad 'Gwnaed yng Nghymru' yn cael ei ddatblygu ymhellach. Cytunwyd bod angen naratif cyffredin, a fyddai o bosib yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ogystal ag ansawdd.
15. Cawsom wybod y diweddaraf am “Flwyddyn y Chwedlau” gan CC. Bydd yr ymgyrch ar ei chryfaf yn Hydref-Rhagfyr 2017. Wrthi'n ystyried syniadau ar gyfer Llwybrau Chwedlonol. Teimlwyd y gallai'r cysyniad hwn bontio ffiniau pwnc.
16. Holodd MS am yr app ar gyfer y llwybr Twristiaeth. Dywedodd CC fod app wrthi'n cael ei ddatblygu fyddai'n ymgorffori'r agweddau trawsbynciol h.y. bwyd a diod, iechyd, trafnidiaeth.

Eitem 8: SHEP

17. Cawsom wybod y diweddaraf gan KP am y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Mae arian wedi'i gymeradwyo ar ei chyfer a chynhaliwyd cynhadledd arni ym mis Chwefror 2017 a ddenodd cynulleidfadau dda.
18. Mae fframwaith Gwerthuso wrthi'n cael ei ddatblygu, sy'n angenrheidiol er mwyn denu arian yn y dyfodol.

Eitem 9: Pobl a Sgiliau

19. Dosbarthodd JF bapur am amcanion a nodau'r gynhadledd Sgiliau arfaethedig. Mae dwy gynhadledd ar y gweill, un ar gyfer y De a'r llall ar gyfer y Gogledd.
20. Cawsom wybod gan JF y diweddaraf am y lefi Prentisiaethau. Nid yw'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhestru Bwyd a Diod fel blaenoriaeth. Cytunwyd bod yn rhaid wrth ymgysylltu, yn enwedig yng ngoleuni'r gweithdai ar Brexit a'r bylchau prosesu a nodwyd.

Eitem 10: Cwsmeriaid a Marchnadoedd

21. Dywedodd MS fod angen ymchwilio i restrau Cymreig a chategorïau cynnyrch mewn siopau, gyda'r nod o ddadansoddi'r hyn sy'n gwerthu a pha ran o'r diwydiant y dylid cyfathrebu â hi. Dywedodd DM fod y data eisoes ar gael a dylai'r ffrwd gwaith gyfathrebu â swyddogion LIC.

Eitem 11: Busnes a Buddsoddi

22. Cyn y cyfarfod, cafodd papur o'r enw "Roadmap for leveraging commercial investment in the Welsh Food and Drink Sector" ei ddosbarthu.
23. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu'r papur a chynnig adborth erbyn dydd Gwener, 24 Mawrth.

Eitem 12: Cyswllt Ffermio

24. Cawsom gan Cyswllt Ffermio ddisgrifiad bras o raglen "Cyswllt Ffermio" a sut y gallai'r rhaglen "Cyswllt Bwyd" fabwysiadu trefniant tebyg.
25. Dywedodd LG bod yna anawsterau cyfathrebu ac ymgysylltu ac awgrymodd bod y ffrwd gwaith Busnesau a thîm busnes LIC yn paratoi strategaeth ymgysylltu erbyn lansio'r rhaglen.

Eitem 13: Hybu Cig Cymru

26. Cawsom gyflwyniad gan HHC am "Estyn oes cig Oen ar y silff", oedd yn cynnwys ystyriaeth o'r sefyllfa heddiw, y rhwystrau a'r opsiynau sy'n destun ymchwil bellach e.e. pecynnu deallus
27. Trafodwyd marchnadoedd domestig a chytunwyd bod angen gweithio mewn ffordd drawsbynciol yn y dyfodol – gan gynnwys opsiynau ar gyfer y diwydiant, prosesu, ymchwil a datblygu, ffermwyr, polisi ac addysg.

Eitem 14: Blas Cymru / Taste Wales

28. Cawsom ddarlun bras gan Bennaeth Masnach, Allforio a Mewnfuddsoddi'r Isadran Fwyd am Blas Cymru ar y cyd ag Orchard Media and Events, y contractwr a benodwyd.
29. Cafwyd ymateb rhagorol gan gynhyrchwyr a phrynwyr a chafwyd mwy na'r targed o nawdd.
30. Amlinellwyd yr agenda a gofynnwyd i'r Bwrdd a allent gynyddu eu presenoldeb gan nad yw'n debygol y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn gallu bod yn bresennol bellach.
31. Cawsom ddarlun bras gan y cwmni PR o weithgarwch y wasg. Roedd hwn hefyd lawer gwell na'r disgwyl.
32. Cytunwyd bod aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu fel a ganlyn:
 - Bydd AR/ DL ac ALW yn mynd i'r cinio VIP
 - Bydd AR yn cynrychioli'r Bwrdd yn y Gynhadledd
 - Bydd ALW yn cynrychioli'r Bwrdd yn y stafell Cwrdd â'r Prynwyr
 - Bydd DL yn cynrychioli'r Bwrdd yn yr Ardal Arloesi
 - Bydd DL yn cynrychioli'r Bwrdd ar y nos lau
 - Bydd KP ac MS yn bresennol ac yn cynrychioli'r Bwrdd yn y Gynhadledd ddydd Gwener..

Eitem 15: Strategaeth y Diwydiant Diodydd

33. Cyflwynodd Brookdale Consulting eu canfyddiadau yn dilyn eu hymchwili i'r sector Diodydd, gan gynnwys sut y gellid diffinio'r sector, tueddiadau cwsmeriaid a phynciau llosg i'w hystyried er mwyn i'r sector allu tyfu yn y dyfodol.
34. Nododd NB ddefnyddioldeb fframwaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer cwmnïau, yn enwedig o ran amddiffyn yr amgylchedd vis a vis yr angen am dwf economaidd. Cytunwyd bod angen marchnata hyn i ddiwydiant.

Eitem 16: Bylchau prosesu – y sector bwyd môr

35. Dywedodd JW bod LIC newydd gomisiynu ymchwili i ychwanegu at werth bwyd môr yng Nghymru. Codwyd cwestiynau ynghylch y data sy'n cael eu dadansoddi gan ymchwilwyr a'r cwmnïau y maen nhw'n eu targedu. Cytunwyd y byddai cael cyflwyniad ar eu canfyddiadau'n ddefnyddiol.

Eitem 17: Cyfathrebu ac Ymgysylltu

36. Dosbarthwyd y Cynllun Cyfathrebu ymhlith yr aelodau. Cytunwyd bod angen i'r ochr gyfathrebu fod yn adeiladol.
37. Dywedodd JF y gellid cydamseru gweithgareddau'r Bwrdd â Rhaglen Weithgarwch LIC h.y. cynnal y Gynhadledd Sgiliau yn ystod Wythnos y Prentisiaid.
38. Dywedodd NB fod angen Datganiadau i'r Wasg i sôn am lwyddiant cwmni sydd wedi elwa ar weithgarwch y Bwrdd h.y. y Gynhadledd Arloesi a Buddsoddi.
39. Dywedodd DL fod angen sicrhau bod cyfathrebu dwyffordd â'r diwydiant. Cytunwyd y câi "Communique" ei gynhyrchu ar ôl pob

cyfarfod a byddai hwnnw'n cynnwys crynodeb o'r trafodaethau, Agenda ddrafft y cyfarfod nesaf a chwestiynau agored er mwyn i'r diwydiant allu cyfrannu eu sylwadau. Gellid defnyddio'r Communique hefyd fel erfyn i hyrwyddo digwyddiadau'r dyfodol.

40. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd i sicrhau bod EH yn cael gwybod am y digwyddiadau a chyfarfodydd y bydd yn mynd iddyn nhw ar ran y Bwrdd er mwyn eu hyrwyddo ar Twitter.

Eitem 18: Unrhyw Fater Arall

41. Cawsom ddarlun bras gan NB am rôl y Llysgennad Gwin. Gwelwyd bod bylchau yn y rhwydweithiau / cymdeithasau. Mae NB wrthi'n meithrin cysylltiadau i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli.
42. Dywedodd NB fod y diffyg arian i hyrwyddo gwinoedd Cymreig yn broblem fawr.
43. Dywedodd NB y dylai derbyniadau LIC ddefnyddio gwinoedd o Gymru a chytunwyd y dylid ymchwilio i hyn ymhellach.
44. Anfonodd EH drefniadau cyfarfodydd gweddill y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Mehefin.

ATODIAD 1

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
Norma Barry (NB)
Justine Fosh (JF)
Alison Lea-Wilson (ALW)
David Lloyd (DL)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
James Wilson (JW)

Swyddogion

David Morris (DM)
Suzanne Pomeroy (SP)
David Lloyd-Thomas (DLT)
Emma Herratt (EH)

YMDDIHEURIADAU

Justin Scale
Annitta Engel
Huw Thomas
Buster Grant (BG)